Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Bwletin rieni 2/10/20

Annwyl riant/warcheidwad,

Yr wythnos hon rydyn ni wedi bod yn dadansoddi adborth disgyblion ar nifer o'n trefniadau COVID newydd a chynllunio er mwyn gweithredu ble mae'n bosib. Mae nifer o'u sylwadau yn bositif, gyda disgyblion yn bositif am yr amser ychwanegol yn ystod cofrestru a chael egwyl prynhawn. Roedd barn disgyblion am ail-gyflwyno'r gloch yn gymysg - roedd y mwyafrif o ddisgyblion hŷn yn erbyn gyda disgyblion Iau yn fwy positif am gloch ar diwedd egwyl a chinio. Nodwyd problemau gyda chloch un flwyddyn yn amharu ar wersi blwyddyn arall. Roedd disgyblion Iau yn nodi'r angen i gael fwy o amser i fwyta cinio.

Ar sail yr adborth byddwn ni'n ymestyn amser cinio ychydig. Er mwyn cael amserlen sy'n gweithio bydd hwn yn 5 munud ychwanegol i ddisgyblion hŷn a 10 munud i ddisgyblion iau, ond er mwyn gwneud hwn bydd rhaid i ni leihau cofrestru gan 5 munud. Ni fydd unrhyw newid i'r amser dysgu ar gyfer disgyblion hyn.

Gan nad oedd ateb clir ar y gloch rydyn ni wedi dosbarthu chwiban i bob aelod o staff sy'n gwneud dyletswydd egwyl a chinio a gofyn iddynt ei ddefnyddio ar ddiwedd egwyl a chinio i weld os ydy hwn yn gwella'r sefyllfa. Byddwn yn ail-edrych mewn cwpwl o wythnosau.

Trefniadau safle

Yn dilyn adborth gan ddisgyblion a staff, byddwn ni'n cyfnewid y drysau mae blwyddyn 7 a 9 yn defnyddio yn y bore ac yn ystod y dydd. Bydd blwyddyn 9 yn dod mewn trwy'r neuadd a blwyddyn 7 heibio'r ystafelloedd newid. Mae hwn yn lleihau'r pellter mae blwyddyn 9 yn teithio i'w parth allanol, ac yn lleihau'r posibilrwydd o lwybrau'n croesi. **Bydd hwn yn dechrau ar ddydd Mawrth, 6ed o Hydref.**

Newidiadau i drefniadau'r chweched

Eleni am y tro cyntaf rydyn ni wedi gadael i ddisgyblion y chweched ddosbarth gadael y safle os mae eu gwersi ar ben, er mwyn lleihau'r niferoedd yn yr adeilad. Yn dilyn ad-drefnu amserlen y chweched, mae cynnydd wedi bod yn y nifer o wersi ar ddiwedd y dydd, gyda nifer o fyfyrwyr y chweched yn nodi bod eu hamserlen yn cynnwys diwrnodau gyda gwersi ar ddiwedd y dydd yn unig. Nid oes gennym gapasiti staffio i wirio tymheredd os ydynt yn cyrraedd ar amserau gwahanol, ac mae'n arfer dda i fyfyrwyr defnyddio eu hamser digyswllt yn synhwyrol ac nid fel amser rhydd.

O wythnos nesaf bydd cyfle **os rhoddir caniatâd rieni** i ddisgyblion sydd heb unrhyw wersi yn y bore (gwers 1-4) i gael mynediad i'r safle rhwng 12.30-12.40 a bydd aelod o staff yna i wneud y gwiriad tymheredd am 10 munud. Nid yw hwn yn gyfle i fynd a dod ac ni fydd ar gael i ddisgyblion sydd gyda gwersi yn y bore. Dylai ddisgyblion sydd yn dod mewn am 12.30 fod adref tan hynny ac nid yn cymysgu gydag eraill - mae hwn yn gyfle iddynt gwblhau eu hastudio annibynnol.

Asesu ac adborth

Mae llawer o drafodaeth wedi digwydd am rannu offer yn ddiogel yn ein gwaith ysgol, ac mae hwn yn cynnwys llyfrau. Yn dilyn hwn rydyn ni wedi cytuno ar ein dulliau asesu ac adborth.

Bydd ffocws ar dderbyn gwaith i asesu yn ddigidol, naill ai gwaith wedi ei greu yn ddigidol neu waith wedi sganio neu luniau o'r gwaith. Ble nad yw hwn yn hawdd neu yn bosib bydd y gwaith yn cael eu gwneud ar bapur a bydd hwn yn cael ei storio am 48 awr cyn ei farcio, ac eto cyn ei ddychwelyd. Bydd llyfrau'r disgyblion yn canolbwyntio ar nodiadau/ymarferion sy'n cael eu hunan-marcio.

Bydd yr adborth llawn mae disgyblion yn derbyn yn cael ei ddarparu yn bennaf trwy 'ShowMyHomework' ac mae mynediad gan rieni i adborth y disgyblion. Os mae gwaith yn derbyn adborth mewn man arall e.e. ar bapur, yn llafar neu ar y dasg ddigidol, bydd hwn yn cael ei nodi ar 'ShowMyHomework' hefyd.

Roedd wythnosau cyntaf y tymor yn gyfnod o dal lan, ond nawr rydyn ni nol i amserlen addysgu fwy normal. Byddwn ni felly yn dychwelyd i'n disgwyliadau adborth arferol, gyda staff rhoi adborth llawn bob mis i ddisgyblion CA4 a'r chweched, ac yn y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 3. Yn y pynciau sylfaen yng nghyfnod allweddol 3, mae gan ddisgyblion llai o wersi bob wythnos felly disgwylir adborth llawn o leiaf bob hanner tymor. Rhwng yr adborth llawn, defnyddir adborth llafar, adborth grŵp ac adborth cryno i gynorthwyo disgyblion.

Diwrnod HMS

Bydd ysgolion Ceredigion ar gau ar ddydd Llun, 2il o Dachwedd (yn syth ar ôl hanner tymor). Rydyn ni'n gobeithio am y gorau ond cynllunio am y gwaethaf, felly bydd ysgolion uwchradd y sir yn cydweithio i baratoi tystiolaeth ar gyfer graddau TGAU a Safon Uwch Haf 2021. Gobeithiwn fydd yr arholiadau hyn yn digwydd fel normal, ond credwn ei fod yn bwysig bod gennym dystiolaeth gadarn sy'n dangos safonau pob disgybl yn eu pynciau os oes rhaid i ni nodi graddau yn yr haf. Os mae unrhyw ddisgybl blwyddyn 12 neu 13 yn bwriadu 'ail-sefyll' arholiad yn Haf 2021 mae'n bwysig eu bod nhw'n cofnodi hwn gyda'n swyddog arholiadau fel bo modd i ni sicrhau eu bod nhw'n gwneud yr un tasgau/asesiadau.

Cynlluniau cau

Roedd 75 ysgol yng Nghymru, sef 5%, wedi gorfod cau dosbarthiadau/blynyddoedd yn ystod yr wythnos ddiwethaf, ond oherwydd y trefniadau sydd mewn lle prin yw'r achosion o ysgolion llawn yn cau. Gobeithiwn ni fydd angen i ni gau unrhyw ddosbarthiadau ond er mwyn sicrhau dilyniant addysgol i ddisgyblion cynhaliwyd noson hyfforddiant i athrawon yr ysgol yr wythnos hon.

Pe bydded angen i ni gau dosbarth bydd disgyblion sy'n cael eu heffeithio yn derbyn amserlen wedi ei addasu yn cynnwys:

- Gwersi byw – pob unigolyn yn mynychu a chael mewnbwn yr athro, gyda'r cyfle i bawb cyfrannu a dysgu.
- Sesiynau tiwtorial – sesiwn ar gael i bawb i ofyn cwestiynau, cael cymorth unigol/grŵp bach. Bydd rhai disgyblion sydd angen cymorth ar agwedd penodol yn gorfod mynychu, tra bo eraill yn medru dewis mynychu.
- Gwersi wedi recordio – darnau o waith athro wedi ei recordio ar ffurf fideo neu ar ffurf cyflwyniad gyda throslais.
- Gwaith wedi ei gyflwyno trwy ddogfennau/cyflwyniadau.
- Bydd sesiynau byw yn cael eu recordio a'u cadw am gyfnod penodol am resymau diogelu cyn cael eu dileu.

Mae'r sir wedi cynhyrchu fideo sy'n dangos sut i gael y gorau allan o ddysgu o bell, ac mae'r ddolen isod ac ar wefan yr ysgol. Gall hwn hefyd fod yn ddefnyddiol i ddisgyblion hyn sy'n dilyn cyrsiau partneriaeth.

https://spark.adobe.com/page/iuXMZOnFTqxkQ/

Casglu data presenoldeb

Nodwyd yn y newyddion fod presenoldeb disgyblion mewn ysgolion Cymru yn agos i 80% ar hyn o bryd, ond mae presenoldeb disgyblion Penweddig yn parhau o amgylch 90%. Diolch am eich cydweithio ar hwn. Er mwyn monitro'r sefyllfa bydd y llywodraeth yn ddechrau casgliad wythnosol o ddata presenoldeb, ac atodaf yr hysbysiad preifatrwydd sy'n amlinellu hwn.

Llongyfarchiadau i ddisgyblion

Llongyfarchiadau mawr i Seren Pugh, Sofie Morgan-Williams a Mari Elin Williams ar lwyddiant eu cwmni 'Bee Natural' yn y gystadleuaeth menter ifanc eleni. Maent wedi ennill y wobr genedlaethol am y cwmni a oedd wedi arddangos y cynaliadwyedd orau!

Llongyfarchiadau i staff

Rydym ni mor falch bod ein hathro gwych, Mr Brayley, yn un o'r athrawon cyntaf i ennill bathodyn lefel 2 'Adobe Creative Educator'. Edrychwn ymlaen at weld sut bydd ei ddosbarth yn defnyddio Adobe Spark.

Llongyfarchiadau i lywodraethwyr

Yn dilyn ein cais am riant-lywodraethwyr, derbyniwyd tri chais erbyn y dyddiad cau ar gyfer y tair lle oedd ar gael. Croeso i Mrs Lowri Jones, Mr Jon King a Dr Heather Williams wrth iddynt ymuno a'r corff llywodraethol.

Dymunaf benwythnos da i chi gyd.



Dr Rhodri Thomas

(Pennaeth)

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Bulletin for Parents 2/10/20

Dear parent / guardian,

This week we have been analysing pupil feedback on a number of our new COVID arrangements and making plans for changes where possible. Many of the comments are positive, with pupils positive about the extra time during registration and afternoon break. Pupils' views about the re-introduction of the bell were mixed - the majority of older pupils were against with junior pupils being more positive about a bell at the end of break and lunch. Problems were identified with the bell for onr year group interrupting the lessons of another year. Junior pupils noted the need for more time to eat lunch.

Based on the feedback we will extend lunch time a little. To get a working timetable this will be an extra 5 minutes for older pupils and 10 minutes for younger pupils, but to do this we will have to reduce registration by 5 minutes. There will be no change to the teaching time for older pupils.

As there was no clear answer on the bell we have issued a whistle to all staff who do break and lunch duty and asked them to use it at the end of break and lunch to see if this improves the situation. We'll revisit in a couple of weeks.

Site arrangements

Following feedback from pupils and staff, we will be swapping the doors that Year 7 and 9 use in the morning and during the day. Year 9 will enter the hall and year 7 will enter past the changing rooms. This reduces the distance that year 9 travels to its allocated area for breaks, and reduces the possibility of paths crossing. **This will start on Tuesday, 6th October.**

Changes to sixth form arrangements

This year for the first time we have let sixth formers leave the site if their lessons are over, in order to reduce the numbers in the building. Following the reorganization of the sixth form timetable, there has been an increase in the number of lessons at the end of the day, with a number of sixth form students stating that their schedule includes days with end-of-day lessons only. We do not have staffing capacity to check temperatures if they arrive at different times, and it is good practice for students to use their non-contact time sensibly and not as free time.

From next week there will be an opportunity **if parents give permission** for pupils who have no lessons in the morning (lesson 1-4) to access the site from 12.30-12.40, and a member of staff will be there to do the temperature check for 10 minutes. This is not an opportunity to come and go and will not be available to pupils with morning lessons. Pupils who come in at 12.30 should be home until then and not mixing with others - this is an opportunity for them to complete their independent study.

Assessment and feedback

There has been much discussion about sharing equipment safely in our school work, and this includes books. Following this review we have agreed our assessment and feedback methods.

There will be a focus on receiving assessed work digitally, either digitally-created or scanned work or pictures of the work. Where this is not easy or possible the work will be done on paper and stored for 48 hours before marking, and again before returning. Pupils' books will focus on self-marked notes / exercises.

The full feedback that pupils receive will be provided mainly through 'ShowMyHomework' and parents have access to this. If work receives feedback elsewhere e.g. on paper, orally or on the digital task, this will also be shown on 'ShowMyHomework'.

The first few weeks of term were different to usual, but now we are back to a more normal teaching schedule. We will therefore return to our normal feedback expectations, with staff providing full feedback each month to KS4 and sixth forms, and in the core subjects at key stage 3. In the foundation subjects at key stage 3, pupils have fewer lessons every week so full feedback is expected at least every half term. In between the full feedback, oral, group and summary feedback are used to assist pupils.

INSET day

Ceredigion schools will be closed on Monday, November 2nd (immediately after half term). We hope for the best but plan for the worst, so the county's secondary schools will work together to prepare evidence for GCSE and A-Levels in Summer 2021. We hope these exams will be as normal, but we believe it is It is important that we have robust evidence showing the standards of all pupils in their subjects if we have to specify grades in the summer. If any year 12 or 13 pupil intends to 're-sit' an exam in the Summer of 2021 it is important that they record this with our exams officer so that we can ensure that they complete the same tasks and assessments.

Partial closure contingency plans

75 schools in Wales, which is 5%, had to close classes / years in the last week, but due to the arrangements in place there are very few cases of full school closures. We hope we will not need to close any classes but in order to ensure educational continuity for pupils a teacher training evening was held this week.

Should we need to close a class, affected pupils will receive a modified timetable including:

• Live lessons - all individuals attend and receive teacher input, with the opportunity for everyone to contribute and learn.

• Tutorials - session available to everyone to ask questions or get individual / small group support. Some pupils who need help with a particular aspect will have to attend, while others may choose to attend.

• Recorded lessons - recorded pieces of teacher work as video or voice-over presentations.

• Work presented through documents / presentations.

All live sessions will be recorded and kept for a short period for safeguarding purposes and then deleted.

The county has produced a video showing how to get the most out of distance learning, and the link is below and on the school website. This can also be useful for older pupils following partnership courses.

https://spark.adobe.com/page/iuXMZOnFTqxkQ/

Collection of attendance data

It was noted in the news that pupil attendance in schools in Wales is currently close to 80%, but Penweddig pupils' attendance remains around 90%. Thank you for your co-operation on this. To monitor the situation the government will begin a weekly collection of attendance data, and I attach the privacy notice outlining this.

Congratulations to pupils

Congratulations to Seren Pugh, Sofie Morgan-Williams and Mari Elin Williams on the success of their company 'Bee Natural' in this year's young enterprise competition. They have won the national award for the company with best sustainability!

Congratulations to staff

We are so proud that our wonderful teacher, Mr Brayley, was one of the first teachers to gain the Adobe Creative Educator level 2 badge. We look forward to seeing how his class will use Adobe Spark.

Congratulations to governors

Following our letter regarding parent governors, three applications were received by the closing date for the three places available. Please welcome Mrs Lowri Jones, Mr Jon King and Dr Heather Williams as they join the governing body.

I wish you all a good weekend.



Dr Rhodri Thomas

(Headteacher)